Cyngor Abertawe
Swansea Council

Gwaith Stryd
Adran Priffyrdd a Chludiant
Ystad Ddiwydiannol Players, Clydach,
Abertawe, SA6 5BJ
01792 841677 streetworks@abertawe.gov.uk

Deddf Rheoleiddio TRAFFIG FFYRDD 1984 (FEL Y'I DIWYGIWYD)
DEDDF FFYRDD NEWYDD A GWAITH STRYD 1991
DEDDF CYFRIFOLDEBAU HEDDLUOEDD TREFOL 1847

Cais Gorchymyn Rheoleiddio Traffig Dros Dro

Enw'r ymgeisydd:		Enw'r cwmni:	
Cyfeiriad			
Ffôn:		E-bost:	
Lleoliad:		Rhif ffôn:	
Rhesymau dros y gorchymyn:			
Dyddiad/Amser y mae ei angen:		Cyfnod y Gorchymyn:	
Dyddiad y cais:		Math o gyfyngiad:	

Manylion Bilio

Enw Cyswllt:		Rhif Archeb Prynu:	
Enw'r Cwmni:		Rhif ffôn:	
Cyfeiriad Bilio:			

AMODAU A THELERAU

Trwy gwblhau a chyflwyno'r ffurflen gais hon, mae'r ymgeisydd yn cydnabod, a lle bo'n berthnasol, yn cytuno y bydd yn cydymffurfio â'r amodau a thelerau canlynol:

1. Bydd y gweithdrefnau'n unol â'r Côd Ymarfer ar gyfer Cydlynu Gwaith Stryd at Ddibenion Ffyrdd a Materion Cysylltiedig Tachwedd 1992. Rhaid i'r ymgeisydd gydymffurfio â gofynion Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 a Chôd Ymarfer Diogelwch Gwaith Stryd a Gwaith Ffordd lle'r ymgymerir â gwaith stryd. Wrth godi unrhyw arwyddion traffig, bydd yr ymgeisydd yn cydymffurfio â Phennod 8 o'r Llawlyfr Arwyddion Traffig a Rheoliadau a Chyfarwyddydau Cyffredinol Arwyddion Traffig 2016.

2. Bydd yr ymgeisydd yn cysylltu â'r Adran Gwaith Stryd i gael gwybod a oes angen cau ffordd neu gyfyngu traffig, ac fel arfer trefnir cyfarfod ar y cyd â'r holl bartïon â budd sy'n bresennol ar y cam hwn. Os cytunir i gau ffordd, bydd arwyddion gwybodaeth yn cael eu gosod ar y safle 7 niwrnod cyn i'r ffordd gael ei chau yn hysbysu'r cyhoedd o'r dyddiad cau, gan gynnwys enw'r cwmni a manylion cyswllt 24 awr. Anfonir llythyrau drwy'r post i hysbysu preswylwyr a rhanddeiliaid o'r dyddiadau cau a manylion y cau.

3. Bydd cynllun lleoliad a map dargyfeiriol (os yw'n berthnasol) yn cael eu hanfon gyda'r ffurflen gais hon i'r cyfeiriad a nodir uchod neu fel arall drwy e-bost, **o leiaf 6 wythnos** cyn y dyddiad gofynnol.

4. Mae ymgeiswyr yn gyfrifol am godi, cynnal a chadw a gwarchod eu harwyddion eu hunain, y caiff lleoliadau'r rhain eu cyflwyno i'r cyngor a'u cymeradwyo lle bo'r angen cyn eu gosod a chyn dechrau unrhyw waith ar y safle neu cyn i unrhyw ddigwyddiad gael ei gynnal.

5. Cytunir ar lwybrau/dargyfeiriadau eraill gyda Chyngor Abertawe cyn i'r gwaith ddechrau ar y safle neu cyn i'r digwyddiad gael ei gynnal. Mae Cyngor Abertawe yn cadw'r hawl i ddefnyddio/gweithio o fewn y ffordd a gaewyd gytunedig os ystyrir bod hyn yn ddiogel ac yn briodol, heb unrhyw gost ychwanegol i'r awdurdod.

6. Bydd yr ymgeisydd yn talu'r holl gostau sy'n gysylltiedig â'r cais hwn fel a ganlyn: Cost Hysbysiad yw **£960,** cyfyngir parhad hysbysiadau i uchafswm o 5 niwrnod calendr **(Hysbysiad Brys £1830).** Codir **£380** am hysbysiadau at ddibenion digwyddiadau. Bydd angen hysbysebu gorfodol ar gyfer gorchmynion i gau ffyrdd am gyfnod o dros 5 niwrnod a hyd at 18 mis a bydd angen talu costau hysbysebu (sy'n daladwy i Ddinas a Sir Abertawe) o **£3,800** (hollgynhwysol). Bydd yr holl ffioedd perthnasol yn cael eu hanfonebu **"ar ôl"** y cyfnod cau.

7. Bydd yr ymgeisydd hefyd yn talu'r holl gostau ar gyfer ailgyfeirio gwasanaeth bysus, darparu bysus ychwanegol neu ar gyfer darparu safleoedd bysus dros dro etc.

8. Bydd yr ymgeisydd yn indemnio'r cyngor **yn erbyn pob gweithred, achos, hawliad ac atebolrwydd sut bynnag maent yn codi** (gan gynnwys cyfrifoldeb am lithriadau/bagliadau/cwympiadau o fewn yr ardal a gaewyd). Bydd angen o leiaf £10 miliwn o yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ar yr awdurdod. Mae'n rhaid cyflwyno copi o'r dystysgrif gyfredol gyda'r cais Ni fydd y cais hwn yn cael ei brosesu heb brawf o yswiriant.

9. Rhaid i hysbysiad canslo ar gyfer unrhyw gais gael ei dderbyn o leiaf 14 diwrnod cyn y dyddiad yr oedd gofyn i'r Gorchymyn Traffig ddod i rym. Rhoddir anfoneb am y ffi berthnasol lawn os yw'r ymgeisydd yn peidio â gwneud hynny.

10. **Gofynion y Gymraeg:**

10a. Mae'n rhaid i ymgeiswyr fod yn ymwybodol o, a chydymffurfio'n llawn â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 neu unrhyw addasiad statudol neu ailddeddfiad ohono sydd mewn grym am y tro, ac unrhyw Safonau'r Gymraeg a wneir wedyn, wrth godi arwyddion traffig neu gynnal unrhyw gyfathrebiad cyhoeddus arall. Gellir dod o hyd i Safonau'r Gymraeg yn:
https://www.comisiynyddygymraeg.cymru/sefydliadau-cyhoeddus/safonaur-gymraeg

10b. Bydd yr ymgeisydd yn indemnio'r cyngor yn erbyn unrhyw golledion gan gynnwys unrhyw gosb ariannol gan Gomisiynydd y Gymraeg, ac unrhyw rwymedigaethau, hawliadau, iawndal, achosion, dyfarniadau a threuliau gan gynnwys, ffioedd cwnsler, costau llys, a chostau cyfreithiol eraill sy'n deillio o fethiant yr ymgeisydd i gydymffurfio â gofynion cymal 10a uchod.

I dderbyn yr wybodaeth hon mewn fformat arall neu yn Saesneg, cysylltwch â'r person uchod.
To receive this information in alternative format, or in Welsh please contact the above.

Dilys: 1 Ebrill 2024 – 31 Mawrth 2025